Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: cyfyngiadau ar ddefnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion (SMR 10) (2024)

Crynodeb o'r rheolau ar ddefnyddio plaladdwyr.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Diffiniad**

**Prif ofynion**

**Archwiliadau maes**

**Arfer da**

**Gwybodaeth pellach**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw sicrhau bod cynnyrch amddiffyn planhigion (plaladdwyr) yn cael eu defnyddio'n gywir a gofalu, o'u defnyddio, nad ydyn nhw'n peryglu pobl, bywyd gwyllt na'r amgylchedd. Rhaid i bawb sy'n eu defnyddio ar eu tir gadw at y gofynion hyn.

# Diffiniad

Mae plaladdwyr, neu 'cynhyrchion amddiffyn planhigion' fel y'u gelwir hefyd, yn cael eu defnyddio i reoli plâu, chwyn a chlefydau. Mae enghreifftiau'n cynnwys pryfladdwyr, ffwngladdwyr, chwynladdwyr, gwenwyn lladd malwod a rheolwyr tyfiant planhigion.

Mae ffurfiau amrywiol ohonynt yn bod e.e. gronynnau solet, powdr neu hylif ac maent wedi'u gwneud ag un neu fwy o sylweddau actif wedi'u cymysgu â deunyddiau eraill.

# Prif ofynion

- rhaid bod gan y Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion gymeradwyaeth ddilys a rhaid i'r defnyddiwr fod wedi cael hyfforddiant addas
- rhaid bodloni'r amodau a'r rheolau ar label y cynnyrch, y gymeradwyaeth, y drwydded neu'r estyniad ar gyfer ei ddefnyddio
- dilynwch yr arferion gorau wrth amddiffyn planhigion gan gynnwys Cod Ymarfer ar gyfer defnyddio Cynnyrch Amddiffyn Planhigion (fel y'i diwygiwyd)
- cadwch gofnod pan fyddwch yn defnyddio plaladdwyr. Mae hyn yn ofyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hefyd o dan SMR4. Dylai gynnwys manylion:

  - pryd – dyddiad ac amser trin
  - ble – lleoliad a maint y darn tir sy’n cael ei drin
  - pa gnwd sy’n cael ei drin
  - pam – rheswm dros drin
  - pa gynnyrch a ddefnyddiwyd – gan gynnwys rhif MAPP neu MAFF
  - faint sydd wedi’i ddefnyddio
  - y tywydd adeg rhoi’r driniaeth
  - unrhyw wybodaeth berthnasol

## Archwiliadau maes

- i ofalu bod y plaladdwyr yn cael eu defnyddio at eu pwrpas ac yn unol â’r label
- enghreifftiau o’r hyn y mae’r gofynion neu’r amodau yn ymwneud â nhw:
  - bod y cynnyrch cywir wedi’i ddefnyddio ar y cnydau priodol ac o dan yr amgylchiadau cywir
  - nad yw mwy na’r dôs mwyaf a ganiateir wedi’i roi
  - nad yw’r plaladdwr wedi’i roi yn amlach na’r hyn a ganiateir
  - bod y cynnyrch wedi’i roi ar yr adeg cywir
  - bod dillad amddiffyn wedi’u defnyddio
  - bod y cnwd wedi’i gadw o’r gadwyn fwyd am y cyfnod gofynnol
  - bod y plaladdwr wedi’i storio’n ddiogel (allan o afael plant, yn y cynhwysydd gwreiddiol ac wedi’i ddiogelu rhag rhew a rhag niweidio’r amgylchedd ac ati)
  - bod y cynnyrch yn cael ei daflu’n ddiogel (rinsio’r cynhwysydd deirgwaith; ychwanegu golchion at y chwistrellydd wrth ei lenwi ac ati

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Arfer da

Yn ogystal â'r gofynion uchod sy'n ymwneud â Thrawsgydymffurfio, er mwyn cadw at y gyfraith, rhaid ateb y gofynion canlynol:

- os yw'ch gwaith yn ymwneud â Chynnyrch Amddiffyn Planhigion, rhaid ichi gydymffurfio â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynnyrch Amddiffyn Planhigion) 2020. Bydd hyn yn cynnwys cofrestru gydag awdurdod cymwys. Bydd Defra'n casglu'r wybodaeth ar ran llywodraethau Cymru a'r Alban. Gallwch gofrestru yma: **Professional plant protection products (PPPs): register as a user (ar gov.uk)**
- bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am gynnyrch plaladdwyr proffesiynol feddu ar dystysgrif benodol swyddogol. Mae hyn yn cynnwys contractwyr
- mae'n rhaid bod offer gwasgaru plaladdwyr, ac eithrio chwistrellydd cefn neu chwistrellydd llaw basio prawf sy'n cael eu cynnal gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr. Mae'n rhaid i beiriannau gael eu graddnodi a'u hail-brofi yn rheolaidd. Mae pa mor aml y cânt eu hail-brofi yn dibynnu ar y math o beiriant
- dylech chwistrellu ond pan mae'r tywydd yn addas i leihau'r perygl o'r sgeintiad yn drifftio. Mae'r gyfraith yn pennu bod rhaid cadw at yr ardal darged wrth chwistrellu plaladdwyr

## Gwybodaeth pellach

- gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2024)**
- cewch fwy o **wybodaeth am gynnyrch sydd wedi'u caniatáu a'u hawdurdodi (ar hse.gov.uk)**
- cewch fwy o wybodaeth am storio plaladdwyr ar daflen wybodaeth yr HSE **'Guidance on storing pesticides for farmers and other professional**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**users' (ar hse.gov.uk)**

- gweler y taflen '**Code of Practice for using Plant Protection Products' (ar hse.gov.uk)**
- ceir enghraifft o'r daflen '**Cofnod  defnyddio plaladdwyr**' ar ein wefan
- mae manylion y **gofynion ar gyfer archwilio rheolaidd offer defnyddio plaladdwyr** i'w cael ar ein wefan

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cyfyngiadau-ar-ddefnyddio-cynhyrchion-amddiffyn-planhigion-smr-10-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.